Adolygiad o Ddatganiadau Cydymffurfiaeth 2019

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 3

3. Cydymffurfiaeth 4

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth 4

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol 6

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul amodau unigol 8

4. Ymatebion llinellau ymholi 12

4.1 Crynodeb o'r ymatebion 12

4.2 Cyhoeddi manyleb cymhwyster 12

4.3 Gosod yr asesiad 13

5. Ein hymateb i'r datganiadau o gydymffurfiaeth 15

5.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth 15

5.2 Cynlluniau gweithredu 17

5.3 Cyfeirio at y rheoleiddiwr 17

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2020 18

7. Atodiad 1 – Penawdau'r Amodau Cydnabod Safonol 19

1. Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio er mwyn cyflawni ein prif nodau, sef sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol. Mae Amod B2.1 o'n Hamodau Cydnabod Safonol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gyflwyno datganiad cydymffurfiaeth blynyddol i ni. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn seiliedig ar broses hunanwerthuso'r corff dyfarnu o'i statws cydymffurfiaeth yn erbyn yr holl Amodau Cydnabod Safonol. Rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gael proses effeithiol ar waith er mwyn monitro eu cydymffurfiaeth yn barhaus. Gall cyrff dyfarnu sydd â phrosesau hunanwerthuso effeithiol ar waith nodi diffyg cydymffurfio presennol a / neu debygol. Gan ddibynnu ar natur y diffyg cydymffurfio, efallai na fydd hwn yn bryder sylweddol os oes ganddynt gynllun clir ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater a dychwelyd at gydymffurfiaeth lawn.

Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn adnodd monitro allweddol sy'n ategu ein dull rheoleiddio a arweinir gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar risg. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir o'r datganiadau cydymffurfiaeth, ynghyd â gwybodaeth a thystiolaeth arall, i fonitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod Safonol.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut y gwnaethom yr adolygwyd y datganiadau cydymffurfiaeth ar gyfer 2019 ac yn crynhoi ein prif ganfyddiadau.

2. Proses datganiadau cydymffurfiaeth

Yn natganiad cydymffurfiaeth 2019, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu gadarnhau a oeddent:

- yn cydymffurfio'n llawn â'n holl Amodau Cydnabod Safonol; ac
- yn debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'n Hamodau Cydnabod Safonol o fewn y 12 mis nesaf.

Os oedd corff dyfarnu yn datgan ei fod yn methu â chydymffurfio, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio o fewn y 12 mis nesaf, gwnaethom ofyn iddo gyflwyno cynllun gweithredu yn nodi'r camau yr oedd yn eu cymryd a/neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio.

Ar gyfer 2018, gwnaethom gynnwys llinellau ymholi ychwanegol am wybodaeth a thystiolaeth o fewn y datganiad cydymffurfiaeth. Gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- disgrifio eu gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi eu holl fanylebau presennol a sicrhau bod manylebau yn bodloni is-amodau E 3.2(a) i (m) (Amod E3 – Cyhoeddi Manyleb Cymhwyster).
- disgrifio eu prosesau ar gyfer sicrhau bod asesiadau yn addas i'r diben, yn briodol ar gyfer y dull asesu a ddewisir, ac yn gyson â'r fanyleb; a darparu dogfennau ysgrifenedig mewn perthynas ag asesiadau sy'n nodi meini prawf clir a diamwys ar gyfer gwahaniaethu lefelau cyrhaeddiad dysgwyr (Amod G1 – Gosod yr asesiad).

Cyflwynodd cyrff dyfarnu eu datganiad cydymffurfiaeth yn electronig drwy ein cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

3. Cydymffurfiaeth

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth

Cyflwynodd 97 o'r 98 corff dyfarnu a oedd yn cael eu rheoleiddio gennym ar ddyddiad cau'r cyfnod cyflwyno datganiadau cydymffurfiaeth (30 Medi 2019), ddatganiadau cydymffurfiaeth i ni. Roedd un corff dyfarnu wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer ildio eu cydnabyddiaeth gan Cymwysterau Cymru cyn cau'r ffenestr gyflwyno a chytunwyd nad oedd yn ofynnol iddynt ddarparu cyflwyniad. Gwnaethom adolygu pob un o'r 97 o ddatganiadau cydymffurfiaeth yn fanwl ac ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol arall sydd gennym am bob corff dyfarnu. Cyflwynir ein canfyddiadau yn y graff isod.



Graff 1: Canfyddiadau ynglŷn â'r datganiadau cydymffurfiaeth yn dilyn adolygiad

Canfuom fod 76% (74 o 97) o gyrff dyfarnu yn cydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol ac yn debygol o gydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol dros y 12 mis nesaf. Mae hyn yn gyson â'r gyfradd gydymffurfio o 76% yn 2018 (81 o 106). Roedd

24% (23 o 97) o gyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio a / neu'n debygol o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol, yn gyson â'r gyfradd o 24% yn 2018 (25 o 106).

Ar ôl cyflwyno'u datganiadau, gwnaeth tri chorff dyfarnu ildio eu cydnabyddiaeth yng Nghymru. Roedd dau o'r cyrff dyfarnu hyn wedi datgan eu bod yn cydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o gydymffurfio yn y dyfodol, roedd y llall wedi datgan nad oeddynt yn cydymffurfio.

Datganodd tri chorff dyfarnu a oedd wedi datgan nad oeddent yn cydymffurfio ar hyn o bryd yn 2018 eu bod yn parhau i beidio â chydymffurfio â rhai o'r un amodau yn eu datganiadau yn 2019. Rydym wedi parhau i fonitro'r cynlluniau gweithredu hyn ac rydym wedi cael sicrwydd boddhaol eu bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae un corff dyfarnu bellach wedi datgan cydymffurfiaeth ac mae'r ddau arall yn symud tuag at gyflawni cydymffurfiaeth.

Nid yw'r data hwn yn cynnwys unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a ddatganwyd gan gyrff dyfarnu yn erbyn amod H2 (Cymedroli) mewn ymateb i gyngor Ofqual yn eu cyfathrebu mewn perthynas â Datganiad Cydymffurfiaeth RO66[1]. Cyhoeddodd Ofqual ei ymgynghoriad 'Moderation and and verification of centre assessment judgements' ym mis Chwefror 2019. Nododd nad oedd rhai cyrff dyfarnu yn cymedroli dyfarniadau asesu canolfannau yn gyson, ond yn hytrach roeddent yn dibynnu ar ddulliau eraill o sicrhau ansawdd ar gyfer y dyfarniadau canolfannau yr oeddent yn dibynnu arnynt. Cynghorodd Ofqual yn eu gohebiaeth RO66, ni waeth pa mor drylwyr y gallai'r dulliau eraill hyn o sicrhau ansawdd fod, bod unrhyw gorff dyfarnu sy'n cyhoeddi canlyniadau'n rheolaidd ar sail penderfyniadau asesu a wneir gan ganolfannau heb wirio'n gyntaf gywirdeb sampl o'r canlyniadau hynny yn debygol o fod yn torri Amod H2. Cynghorodd Ofqual gyrff dyfarnu a oedd yn credu bod ganddynt broses sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer penderfyniadau asesu canolfannau yr oedd ganddynt hyder ynddynt, ond nad oeddent yn cynnwys elfennau hanfodol cymedroli, i nodi diffyg

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/802707/RO66_Statement_of_Compliance_2019.pdf

cydymffurfio ag Amod H2, ac ychwanegu'r gair 'dilysu' ('verification'), fel esboniad. Nid oedd Ofqual yn gofyn am gynllun gweithredu diffyg cydymffurfio ar gyfer y datganiadau hyn. Ym mis Mehefin 2019, fe wnaethom hysbysu'r cyrff dyfarnu na fyddai pob datganiad o ddiffyg cydymffurfio yn erbyn Amod H2 (Cymedroli), sy'n ymateb uniongyrchol i ganllawiau Ofqual, yn cael ei fonitro, tra oeddem yn ystyried canlyniadau ymgynghoriad Ofqual a newidiadau posibl i'n Hamodau Cydnabod Safonol. Gwnaed deuddeg datganiad o ddiffyg cydymffurfiaeth ag amod H2 (Cymedroli) mewn ymateb i ganllawiau Ofqual.

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol

Ar gyfer y 23 o gyrff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio ar hyn o bryd a/neu sy'n debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, dengys y graff isod yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol.



Graff 2: Diffyg cydymffurfiaeth presennol a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol yn ôl adran o'r Amodau Cydnabod Safonol yn dilyn adolygiad

Fel yn y tair blynedd flaenorol, yr adran amlaf o'n Hamodau Cydnabod Safonol yr oedd cyrff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio â hi a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â hi yn y dyfodol oedd Llywodraethu (adran A). Roedd cyfanswm o wyth corff dyfarnu yn methu â chydymffurfio ag amodau Llywodraethu. Datganodd pob un o'r wyth nad oeddent yn cydymffurfio â'r adran hon ar hyn o bryd, a datganodd dau o'r rhain eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol. Roedd y diffyg cydymffurfio a ddatganwyd yn gysylltiedig ag Amod A4 (Gwrthdaro buddiannau), Amod A5 (Argaeledd adnoddau a threfniadau digonol), Amod 66 (Nodi a rheoli risgiau), Amod A7 (Rheoli digwyddiadau) ac Amod A8 (Camarfer a chamweinyddu).

Yr ail gategori mwyaf mynych o ran diffyg cydymffurfio a/neu ddiffyg cydymffurfio tebygol yn y dyfodol oedd Adran G (Gosod a chynnal yr asesiad). Datganodd chwe chorff dyfarnu ddiffyg cydymffurfiaeth ar hyn o bryd. Datganodd un o'r rhain hefyd eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, tra bod un corff dyfarnu arall wedi datgan eu bod yn debygol o fethu â cydymffurfio yn y dyfodol yn unig. Roedd y datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth yn gysylltiedig ag Amod G1 (Gosod yr asesiad), Amod G4 (Sicrhau cyfrinachedd deunyddiau asesu), Amod G5 (Cofrestru dysgwyr) ac Amod G9 (Cynnal yr asesiad).

Y trydydd categori mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio a/neu ddiffyg cydymffurfio tebygol yn y dyfodol oedd adran D (Gofynion cyffredinol ar gyfer cymwysterau a reoleiddir) ac adran H (O farcio asesiadau i gyhoeddi'r canlyniadau).

Datganodd nifer cynyddol o gyrff dyfarnu ddiffyg cydymffurfiaeth a / neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol ag adran D o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Datganodd chwe chorff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio ar hyn o bryd, a datganodd dau o'r rhain eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r adran hon yn y dyfodol. Roedd datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar addasrwydd i'r diben ar gyfer cymwysterau, hygyrchedd cymwysterau, adolygu ei ddull

o ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau ac ymateb i ymholiadau gan ddefnyddwyr cymwysterau o fewn amser rhesymol.

Datganodd chwe chorff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio ag Adran H ar hyn o bryd, a datganodd dau o'r rhain eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol. Roedd pedwar datganiad ar gyfer adran H yn ymwneud â chyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu marcio asesiadau yn gywir.

Yn ystod yr adolygiad, nodwyd bod rhai cyrff dyfarnu wedi camddehongli amodau B2.2 a B2.3 ynghylch datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth ar hyn o bryd a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol. Datganodd nifer o gyrff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio ar hyn o bryd a'u bod yn debygol o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol ar gyfer yr un mater o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae amod B2.2(b) yn nodi y dylai'r datganiadau o ddiffyg cydymffurfio ar hyn o bryd gael eu gwneud gan y cyrff dyfarnu sydd, ar adeg cyflwyno'r cais, yn ystyried nad ydynt yn cydymffurfio ag un neu ragor o'r Amodau Cydnabod Safonol. Dim ond cyrff dyfarnu sy'n cydymffurfio ar hyn o bryd ag Amodau Cydnabod Safonol penodol ar adeg eu cyflwyno ond sy'n rhagweld potensial i fethu â chydymffurfio â'r amodau hyn dros y 12 mis dilynol sy'n gorfod nodi diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol. Felly, ni ddylai cyrff dyfarnu nodi diffyg cydymffurfiaeth ar hyn o bryd a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol â'r un amod mewn perthynas â'r un mater o ddiffyg cydymffurfiaeth parhaus.

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul amodau unigol

Dengys y graff isod yr amodau y nodwyd diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol â nhw amlaf.



Graff 3: Diffyg cydymffurfiaeth presennol a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol yn ôl amod unigol o'r Amodau Cydnabod Safonol

Yr amod unigol amlaf o ran diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol oedd H6, yn ymwneud â chyhoeddi canlyniadau. Gwnaeth pum corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amod hwn yn y dyfodol. Gwnaeth pedwar o'r pum corff dyfarnu ddatgan yn benodol eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag Amod H6.1(d) yn y dyfodol, o gymharu ag un datganiad yn 2018. Gwnaeth un corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio â'r amod hwn am yr ail flwyddyn. Mae Amod H6.1(d) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu marcio asesiadau yn gywir ac yn llwyr (gan gynnwys canlyniad unrhyw waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau ac unrhyw broses sicrhau ansawdd arall). Roedd y rhesymau a nodwyd dros beidio â chydymffurfio yn cynnwys camgymeriadau â llaw wrth osod allweddi atebion a thaflenni marciau, gwallau marcio gan arholwyr, a chamymddwyn gan drydydd partïon. Roedd y diffyg cydymffurfiaeth datganedig penodol hyn wedi cael eu hadrodd i ni o'r blaen trwy ein proses hysbysu am ddigwyddiadau.

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n datgan diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol â'r amod hwn yn y dyfodol wedi darparu tystiolaeth yn eu cynlluniau gweithredu o fuddsoddi mewn seilwaith awtomataidd i gael gwared ar y potensial ar gyfer gwall dynol, gwella trefniadau marcio a chynnydd mewn personél cydymffurfio i helpu i ganfod camymddwyn posibl gan drydydd partïon a all beryglu cyhoeddi canlyniadau.

Roedd tri o'r achosion amlaf o ddiffyg cydymffurfio a/neu ddiffyg cydymffurfio tebygol yn y dyfodol yn ôl amod unigol yn gysylltiedig â'r adran Llywodraethu, Amod A. Amodau A5 (Argaeledd adnoddau a threfniadau digonol), A6 (Nodi a rheoli risgiau) ac A8 (Camymddwyn a chamweinyddu) oedd y rhain. Gwnaeth pedwar corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio â phob un o'r amodau hyn yn y dyfodol. Mae'r rhif yn gyson â 2018 o ran A5, ac mae rhywfaint o ostyngiad o ran A6 (pump yn 2018) ac A8 (chwech yn 2018).

Mewn perthynas ag Amod A5, Amod A6 ac Amod A8 datganodd y rhan fwyaf o'r cyrff dyfarnu dan sylw eu bod yn methu â chydymffurfio o ganlyniad i faterion a nodwyd yn ystod gweithgaredd rheoleiddio gan Ofqual Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau i fesurau Rheoli Canolfannau y corff dyfarnu neu gamau a ddeilliodd o achosion o gamymddwyn yr adroddwyd amdanynt. Ymhlith y materion a amlygwyd roedd adnoddau annigonol ar gyfer monitro canolfannau, bylchau mewn systemau ar gyfer cynllunio a rheolaeth fewnol, systemau mewnol nad ydynt ar waith ar gyfer monitro gwrthdaro buddiannau, a rheolaeth risg annigonol mewn canolfannau cymeradwy. Ers hynny mae'r cyrff dyfarnu dan sylw wedi darparu cynlluniau gweithredu ac wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfiaeth, sydd wedi cynnwys cynyddu lefelau staffio ar gyfer monitro canolfannau, gwella prosesau monitro gwrthdaro buddiannau, gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff wrth adrodd digwyddiadau, a gwelliannau mewn camau a gymerwyd i atal camymddwyn.

O ystyried effaith sylweddol bosibl methu â chydymffurfio â'r amodau hyn, rydym wedi cynnwys Amodau A8 ac A6 yn ein llinellau ymholi yn y datganiad cydymffurfiaeth yn

2016 a 2018. Yn ogystal â hyn, mae pob corff dyfarnu sy'n datgan ei fod yn methu â chydymffurfio a/neu ei fod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amodau hyn yn y dyfodol wedi darparu tystiolaeth o'r camau y mae'n eu cymryd i atgyfnerthu'r prosesau sicrhau ansawdd ac asesu risg allanol sydd ar waith ganddo. Rydym yn adolygu cynnydd pob corff dyfarnu yn erbyn ei gynllun gweithredu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dychwelyd i gydymffurfiaeth lawn cyn gynted â phosibl a lleihau'r tebygolrwydd o gael effaith andwyol ar ddysgwyr.

Roedd gan Amodau C1 (Trefniadau gyda thrydydd partïon), G4 (Sicrhau cyfrinachedd deunyddiau asesu) ac I4 (Cyhoeddi tystysgrifau a thystysgrifau amnewid) bedwar corff dyfarnu yn datgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol.

Unwaith eto, roedd rhai o'r diffyg cydymffurfiaeth a ddatganwyd o ran Amod C1 yn deillio o archwiliadau Ofqual i fesurau Rheoli Canolfannau. Roedd y materion a amlygwyd yn ymwneud ag Amodau A5, A6 ac A8 uchod yn cynnwys adnoddau annigonol ar gyfer monitro canolfannau, monitro annigonol o wrthdaro buddiannau canolfannau a gwendidau yn systemau rheolaethau mewnol.

O ran Amod G4, nododd pedwar corff dyfarnu ddiffygion yn eu trefniadau i sicrhau bod deunyddiau asesu cyfrinachol yn parhau i fod yn ddiogel bob amser.

Roedd y datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth ag amod I4 yn ymwneud â gwallau wrth gyhoeddi tystysgrifau, gan gynnwys enw ymgeisydd anghywir, cyhoeddi tystysgrifau i ddysgwyr oedd eto i gwblhau asesiad y cymhwyster a methu â bodloni'r cytundebau lefel gwasanaeth a gyhoeddwyd ar gyfer cyflwyno tystysgrifau.

Darparodd cyrff dyfarnu a oedd yn datgan eu bod yn methu â chydymffurfio â phob un o'r amodau hyn ar hyn o bryd neu yn y dyfodol gynlluniau gweithredu i ddatblygu eu prosesau cymeradwyo canolfannau, adolygu gwiriadau sicrwydd ansawdd allanol, cyflwyno hyfforddiant ar gyfer ymdrin â deunyddiau asesu cyfrinachol, cynllunio systemau awtomataidd ar gyfer ardystio, a chryfhau'r trefniadau sydd ganddynt ar waith gydag isgontractwyr.

Fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yn ymddangos bod cydberthynas rhwng meysydd diffyg cydymffurfiaeth a gweithgarwch monitro a wnaed gan CCEA, Ofqual a Cymwysterau Cymru. Gwnaeth cyrff dyfarnu a oedd wedi datgan eu bod yn methu â chydymffurfio yn dilyn gweithgarwch rheoleiddiol, nodi hyn yn eu cynlluniau gweithredu.

4. Ymatebion llinellau ymholi

4.1 Crynodeb o'r ymatebion

Roedd ansawdd yr ymatebion i linell ymholi ar y cyfan yn dda. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr ymatebion yn amrywio'n sylweddol rhwng y cyrff o hyd. Roedd cyrff dyfarnu, yr ystyrir bod eu cyflwyniadau'n gryf, yn rhoi eu hymatebion testun mewn trefn is-benawdau yn ôl isadrannau amodau. O dan y penawdau hyn, rhoddwyd esboniad cryno o'r ffordd roedd y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r is-amod. Roedd yr esboniadau hyn yn cyfeirio'n glir at adrannau perthnasol o'r dystiolaeth ategol. Ar gyfer pob llinell ymholi, darparodd ymatebion cryfach dystiolaeth o adolygiadau rheolaidd o bolisïau a phrosesau.

Roedd cyrff dyfarnu gyda chyflwyniadau gwannach yn darparu ymatebion testun heb strwythur na manylion ac nid oeddent yn cyfeirio'n glir at adrannau perthnasol o'r ddogfennaeth ategol. Yn aml, roedd gorddibyniaeth ar ddarparu nifer o ddogfennau ategol nad oedd cysylltiad clir bob amser rhyngddynt hwy a'r amod. Mewn rhai achosion, roedd angen i nifer o ddogfennau gael eu hadolygu er mwyn canfod y prosesau a'r systemau a oedd ar waith gan gorff dyfarnu.

4.2 Cyhoeddi manyleb cymhwyster

Roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi eu holl fanylebau cyfredol a sicrhau eu bod yn nodi gofynion is-amodau E3.2(a) i (m); (Amod E3 - Cyhoeddi manyleb cymhwyster). Fe'u cyfarwyddwyd hefyd i ddarparu'r fanyleb ar gyfer eu cymhwyster gyda'r nifer uchaf o ddyfarniadau yng Nghymru fel tystiolaeth ategol.

Roedd yr ymatebion cryfach yn amlinellu prosesau clir a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu cymwysterau, gyda chyfeiriadau defnyddiol at yr adrannau sy'n benodol berthnasol i gynllunio, datblygu a chyhoeddi manylebau. Roedd tystiolaeth ategol yn manylu ar y personél dan sylw, gan nodi'n glir eu rolau yn y weithdrefn a pherchnogaeth tasgau. Esboniwyd manylion am ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr yn ystod y broses o ddatblygu'r fanyleb. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys sicrwydd ansawdd a wnaed gan arbenigwyr, staff neu weithgorau penodol â chymwysterau priodol. Roedd proses glir ar gyfer cymeradwyo cyhoeddi'r fanyleb gan berson ag awdurdod priodol o fewn y corff dyfarnu a gwelwyd tystiolaeth o'r amserlenni cysylltiedig. Darparwyd y fanyleb ar gyfer y cymwysterau â'r nifer uchaf o ddyfarniadau yng Nghymru ac fe gynigiwyd cyfeiriadau defnyddiol lle'r oedd is-amodau E 3.2(a) i (m) wedi'u nodi. Roedd y manylebau wedi'u gosod a'u trefnu'n glir a chywir i alluogi dysgwyr i ddeall gofynion y cymhwyster.

Nid oedd ymatebion gwannach yn manylu ar broses ar gyfer datblygu a chyhoeddi manyleb. Efallai y cyfeiriwyd bod dogfennau gweithdrefnol yn bodoli ond ni ddarparwyd crynodeb o'r broses na'r dogfennau eu hunain. Methodd rhai ymatebion â sôn am ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid priodol yn ystod y broses o ddatblygu'r fanyleb. Nid oedd y manylebau a ddarparwyd bob amser yn bodloni gofynion is-amodau E 3.2(a) i (m) ac nid oedd gwybodaeth i ddysgwyr am ofynion y cymhwyster bob amser ar gael yn hawdd.

4.3 Gosod yr asesiad

Roedd gofyn i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu prosesau ar gyfer sicrhau bod asesiadau'n addas i'r diben, yn briodol ar gyfer y dull asesu a ddewiswyd ac yn gyson â'r fanyleb (Amod G1 – Gosod yr asesiad). Gofynnwyd iddynt hefyd ddisgrifio eu gweithdrefnau ar gyfer creu, adolygu a diweddaru cynlluniau marcio.

Roedd ymatebion cryfach yn amlinellu'n glir y broses o greu ac adolygu asesiadau a oedd yn gwirio dilysrwydd yr hyn a oedd yn cael ei asesu. Cafwyd esboniadau manwl o dreialu asesiadau a monitro parhaus o ran dibynadwyedd. Cynhwyswyd cymaroldeb

fel ymarfer cynllunio i sicrhau bod lefel y cymhwyster yn briodol a'i safon yn cael ei chynnal. Roedd y prosesau'n cynnwys defnyddwyr drwyddi draw i sicrhau hwylustod ac i leihau rhagfarn. Roedd gweithdrefnau'n cynnwys gweithgarwch safoni yn y broses greu a thrwy gydol y cylch asesu er mwyn cefnogi gwahaniaethu cywir.

Roedd yr ymatebion gwell yn dangos bod proses adolygu wedi'i rhaglennu yn edrych ar y cynlluniau asesu a marcio. Nodwyd y personél a oedd yn gysylltiedig ac roedd amserlenni clir ar gyfer y broses. Roedd adolygiadau'n cynnwys personél sicrhau ansawdd ac roedd lefelau priodol o graffu wedi'i wneud gan arbenigwyr, yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr, ac wedi cael eu cymeradwyo'n briodol gan uwch aelodau o staff.

Roedd yr ymatebion cryfach fel arfer yn dangos cynlluniau marcio a grëwyd ar y dechrau ochr yn ochr â'r asesiad. Darparwyd tystiolaeth o wiriadau i sicrhau bod meini prawf yr asesiad a'r amcanion dysgu yn cael eu cwmpasu. Gwelwyd tystiolaeth o gynlluniau marcio eglur drwy dreialu gan farcwyr ac adolygu gan arbenigwyr a phersonél priodol megis prif arholwyr. Nodwyd gweithgareddau cymedroli a safoni yn rhan o'r rhaglen cylch asesu. Nodwyd adolygiadau ôl-farcio o gynlluniau marcio fel gweithgaredd parhaus ynghyd â diweddariadau cywirol er eglurder lle'r oedd angen. Darparwyd cynllun marcio ar gyfer y cymhwyster a ddyfarnwyd uchaf hefyd i ddangos bod y broses wedi'i rhoi ar waith.

Ar gyfer asesiadau sgiliau galwedigaethol ymarferol lle na ddefnyddiwyd cynlluniau marcio, darparwyd tystiolaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd allanol cadarn a gweithgarwch safoni cyn i farciau ac ardystiadau gael eu hawdurdodi i'w rhyddhau. Darparwyd sylwebaeth hefyd ar yr adolygiad o'r maen prawf asesu a'r amcanion dysgu.

Roedd ymatebion gwannach yn nodi bod asesiadau'n cael eu gwirio o ran addasrwydd i'r diben, ond yn methu â manylu ar yr adolygiad na beth oedd addasrwydd i ddiben yn ei olygu. Roedd rhai ymatebion yn hepgor unrhyw gyfeiriad at wiriadau addasrwydd i'r diben. Lle'r oedd asesiadau'n cael eu gosod gan ganolfannau, nid oedd yr ymatebion gwannaf yn egluro sut roeddent yn sicrhau cymaroldeb neu safoni neu'n

cynghori ar unrhyw broses o gymeradwyo strategaeth asesu'r ganolfan. Roedd rhai ymatebion yn methu ag esbonio unrhyw weithdrefnau adolygu ar gyfer asesiadau a/neu gynlluniau marcio. Roedd ymatebion eraill yn rhoi sylwadau ar gynlluniau marcio ac yn mynegi'r prosesau creu ac adolygu yn dda, ond nid oeddent yn darparu'r cynllun marcio enghreifftiol y gofynnwyd amdano i ddangos bod y broses wedi'i rhoi ar waith.

5. Ein hymateb i'r datganiadau o gydymffurfiaeth

5.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth

Roedd ansawdd cyffredinol yr ymatebion yn debyg i'r llynedd, ond roedd yr ymatebion yn amrywio rhwng y cyrff dyfarnu. Prin oedd y wybodaeth a gynhwyswyd gan rai cyrff dyfarnu ac nid ategwyd y wybodaeth honno gan dystiolaeth, ond darparodd eraill wybodaeth fanwl a gwerthusol iawn, gyda chysylltiad clir rhwng testun yr ymateb ar bapur a'r dystiolaeth ategol.

Felly, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol gan 37% (36 o 97) o'r holl gyrff dyfarnu, yn bennaf am fod eu datganiadau yn aneglur neu'n cynnwys tystiolaeth annigonol. Gellir cymharu hyn â ffigwr 2018, sef 26% (28 o 106). Roedd yn ofynnol i rai cyrff dyfarnu ddarparu rhagor o wybodaeth am fwy nag un llinell ymholi, fel y dangosir yn y graff isod.



Graff 4: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl nifer y llinellau ymholi

Mae'r graff isod yn dangos categorïau'r ceisiadau am ragor o wybodaeth ar gyfer y ddwy linell ymholi. Y categori mwyaf cyffredin lle'r oedd angen eglurhad pellach oedd y llinell ymholi yn ymwneud â gosod a chynnal yr asesiad.



Graff 5: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl categori o linell ymholi

Cawsom ymatebion boddhaol i bob un o'n ceisiadau am ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth gan gyrff dyfarnu. Mewn lleiafrif o achosion, nododd cyrff dyfarnu yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd eu manylebau na'u polisïau a'u prosesau presennol yn mynd i'r afael â'r amodau yn ddigonol a rhoddwyd tystiolaeth i ni fod y rhain bellach wedi'u diweddaru.

5.2 Cynlluniau gweithredu

Roedd yn ofynnol i bob un (23) o'r cyrff dyfarnu a ddatganodd nad oeddent yn cydymffurfio a/neu sy'n debygol o beidio â chydymffurfio dros y 12 mis nesaf lunio cynlluniau gweithredu. Rydym yn monitro'r cynlluniau gweithredu hyn yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, byddwn yn cynnal gweithgarwch monitro dilynol dros y flwyddyn nesaf i ddilysu'r gwaith o gwblhau'r cynlluniau gweithredu. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau a'r dystiolaeth o broses datganiad cydymffurfiaeth 2019 er mwyn llywio ein rhaglen fonitro cyrff dyfarnu yn y dyfodol.

5.3 Cyfeirio at y rheoleiddiwr

Yn ystod yr adolygiad, gwnaethom nodi bod nifer sylweddol o gyrff dyfarnu (43%, 42/97) naill ai wedi hepgor neu wedi gwneud cyfeiriadau anghywir at Cymwysterau Cymru o fewn eu tystiolaeth ategol. Mae hyn yn welliant ar ffigwr 2018, sef 61% (65/106). O'r 42 yma, nid oedd 95% (40) wedi cyfeirio at Cymwysterau Cymru na'r Amodau Cydnabod Safonol pan oedd rheoleiddwyr eraill wedi cael eu crybwyll yn benodol (54 oedd y ffigwr yma yn 2018). Roedd y 5% (2) o gyrff dyfarnu a oedd yn weddill wedi cyfeirio'n anghywir at Cymwysterau Cymru fel QiW, gwelliant amlwg ar yr 11 a nodwyd yn 2018. Corff rheoleiddio annibynnol yw Cymwysterau Cymru a QiW yw ein cronfa ddata o gymwysterau cymeradwy a dynodedig.

Cysylltwyd â'r ddau gorff dyfarnu a oedd wedi cyfeirio'n anghywir at Cymwysterau Cymru ac ers hynny maent wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig y caiff unrhyw wallau eu diwygio cyn gynted â phosibl, neu pan fydd y broses o adolygu polisïau yn caniatáu

hynny. Ar gyfer pob corff dyfarnu arall, anfonwyd e-bost ffurfiol yn amlinellu arfer gorau a materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn 2019 pan ddaeth y cyfnod i gyflwyno eu datganiad cydymffurfiaeth i ben yn swyddogol. Mae'r cyfathrebiad hwn yn pwysleisio y dylai'r holl gyrff dyfarnu sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad cywir at Cymwysterau Cymru yn eu dogfennaeth. Byddwn yn parhau i fonitro hyn mewn datganiadau cydymffurfiaeth a gyflwynir yn y dyfodol.

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2020

Rydym yn cydnabod bod cyrff dyfarnu yn canolbwyntio eu hymdrechion ar reoli heriau sylweddol a chymhleth yng ngoleuni'r materion sy'n deillio o Covid-19. Mewn llawer o achosion, mae'r cyrff dyfarnu yn ddealladwy wedi ailddyrannu adnoddau mewnol neu ddadflaenoriaethu gweithgareddau penodol er mwyn ymateb i'r heriau hyn.

Rydym yn llwyr werthfawrogi'r ymdrechion y mae'r gymuned reoledig yn eu gwneud i ddatblygu ymatebion priodol ac amserol i'r heriau hyn. Rydym yn awyddus i leihau unrhyw faich rheoleiddiol nad yw'n hanfodol ar gyrff dyfarnu ar yr adegau mwyaf heriol hyn. O ganlyniad, byddwn yn atal y gofyniad i gyrff dyfarnu gyflwyno eu Datganiad Cydymffurfiaeth 2020 llawn nes y rhoddir rhybudd pellach.

Efallai y byddwn yn codi'r ataliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn gofyn i gyrff dyfarnu ddarparu datganiad byrrach sy'n canolbwyntio mwy ar feysydd a fydd yn allweddol i lywio ein rheoleiddio parhaus. Os penderfynwn wneud hyn, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i gyrff dyfarnu a gwybodaeth am sut i wneud unrhyw ddatganiad cyn i ni godi'r ataliad.

Cytunwyd ar y sefyllfa yma gan dri rheolydd CCEA, Ofqual a Cymwysterau Cymru.

7. Atodiad 1 – Penawdau'r Amodau Cydnabod Safonol

Rhan 1 – Y corff dyfarnu	
Adran A	**Llywodraethu**
Adran B	**Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru**
Adran C	**Trydydd partïon**
Rhan 2 – y cymhwyster a reoleiddir	
Adran D	**Gofynion cyffredinol ar gyfer cymwysterau a reoleiddir**
Adran E	**Llunio a datblygu cymwysterau**
Adran F	**Darparu cymwysterau i brynwyr**
Adran G	**Gosod a chynnal yr asesiad**
Adran H	**O farcio asesiadau i gyhoeddi canlyniadau**
Adran I	**Apelau a thystysgrifau**
Adran J	**Dehongliadau a diffiniadau**